

Tasg 2

(Heriol, sbardun 3)

1. Mae Gerallt Lloyd Owen yn galw Llywelyn yn 'ti' yn y gerdd (Wylit, wylit Lywelyn/.. o'th blegid di). Ydy hyn yn effeithiol? Pam?
2. Pam mae Gerallt Lloyd Owen yn sôn amdanom 'ni' yn y pennill cyntaf a'r ail bennill, ac yna'n newid i sôn am ei hunan (fy nghledd/O gallwn, gallwn golli..) yn y pennill olaf?
3. Sylwch yr ailadrodd sydd yn y gerdd. Beth yw bwriad y bardd wrth ailadrodd geiriau unigol a phatrymau brawddegau?
4. Mae'r gerdd hon wedi'i hysgrifennu ym mesur y cywydd. Edrychwch ar bob cwpled (dwylinell). Beth yw'r patrwm odlau?
5. Mesur caeth yw'r cywydd – mae'n cynnwys cynghanedd.
 - i) Darllenwch y llinellau hyn yn uchel a sylwch ar **batrwm y cytseiniaid** yn nau hanner y llinellau hyn:
A **dedwydd** iaw(n) / **doed** a **ddêl**
Fe rown wên/ i'[r] **Frenhiniaeth**
Heb ofa(l) / o[nd] **bihafio**
 - ii) Darllenwch y llinellau hyn yn uchel a sylwch ar yr **odl**:
Ein **calon** gan **estron** wŵr
Byddwn **daeog** **ddiogel**
Wylit, **wylit** Lywelyn
O **gallwn**, **gallwn** golli

Rhagor am yr arwisgo:

Atgofion Ioan Roberts, Gohebydd y Cymro yn 1969.

http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themâu/enwogion/arwisgiad69_3.shtml